



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

EIN STRATEGAETH YMCHWIL AC ARLOESI

2021 – 2024

CEFNOGI'R GWAITH O DDARPARU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU IACHACH

Er gwaethaf effeithiau dinistriol COVID-19, mae'r pandemig wedi dangos bod yna gysylltiad allweddol rhwng ymchwil, arloesi a gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r system gofal iechyd.



Rhagair



Dr Philip Kloer

Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr

Roedd strategaeth iechyd a gofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ‘Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau’r dyfodol yn byw’n dda’ yn disgrifio ein cynllun i ddarparu gwasanaethau clinigol rhagorol ar gyfer ein poblogaeth. Roedd hefyd yn ategu ein huchelgais i gyfrannu gymaint â phosibl i’r system iechyd a gofal, trwy fynd i’r afael ag achosion afiechyd trwy hybu iechyd a llesiant, gwaith atal ac ymyrryd yn fuan.

Ym mis Tachwedd, cytunodd y Bwrdd ar nifer o amcanion lefel uchel yng nghyd-destun y strategaeth hon a’r hyn a ddysgwyd o’r pandemig. Un o’r Amcanion Strategol yw “Ymdrechu i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol”, ac o fewn hyn gosodwyd amcan cynllunio i ddatblygu strategaeth ar gyfer ymchwil ac arloesi ar gyfer BIPHDD. Mae’r amcanion hyn yn rhoi ymchwil ac arloesi wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mae’r deuddeg mis diwethaf wedi dangos pa mor hanfodol yw ymchwil ac arloesi i fynd i’r afael â’r argyfwng iechyd cyhoeddus clefyd heintus gwaethaf yn ein hoes. Mae lliniaru COVID-19 a datrys y pandemig yn derfynol yn dal i ddibynnu ar ganlyniadau ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel. Er bod pwysigrwydd gwaith ymchwil o ran

datblygu brechlynnau newydd a nodi triniaethau newydd ar gyfer COVID-19 wedi bod yn amlwg iawn yn ddiweddar, bu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda adran ymchwil ers tro byd. Mae’r adran ymchwil a datblygu yn galluogi preswylwyr ardal y Bwrdd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil sy’n cynnwys canser, afiechyd resbiradol, afiechyd cardiofasgwlaidd, anhwylderau gastoberfeddol a llawer mwy. Mae gan y Bwrdd Fanc Bio hefyd a chyfleuster newydd ar gyfer gwaith ymchwil peirianeg glinigol; mae gennym gysylltiadau cryf â chymrodorion Bevan a’r tair Prifysgol yn ein hardal ddaearyddol; mae cyfleoedd hefyd i ni gyfranogi yn ARCH (Cydwethrediad Rhanbarthol dros Iechyd), a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy’n cynnwys datblygiad arfaethedig Pentre Awel yn Llanelli. Er y gweithgareddau hyn i gyd, mae llawer i’w wneud o hyd.

Mae’r strategaeth hon yn disgrifio nodau strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy’n anelu at wella ein galluedd ymchwil ac arloesi. Gwnawn hynny trwy ganolbwyntio ar gryfderau yn ogystal â chyfleoedd newydd, buddsoddi yn ein pobl a’n cyfleusterau, gwella ansawdd ac effaith ein gwaith ymchwil ac arloesi, a datblygu partneriaethau pellach cryf ac effeithiol. Trwy fynd ar ôl y nodau hyn a’r camau gweithredu sy’n gysylltiedig â nhw, a’u cyflawni trwy gynllun gweithredu a gaiff ei ddiweddarau bob blwyddyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn manteisio hyd yr eithaf ar rôl ymchwil ac arloesi wrth drawsnewid ein gwasanaethau iechyd a gofal lleol. Bydd hyn yn fodd i ni ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer cleifion a staff yn awr ac yn y dyfodol.

Rwy’n falch iawn o gael rhannu’r strategaeth hon â chi ac rwy’n edrych ymlaen at weithio, gyda phwrpas newydd, i wireddu ein gweledigaeth a chyflawni’r nodau strategol hyn dros y pedair blynedd nesaf.

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar bennu'r cyfeiriad ac ymrwymo i gymryd camau ymarferol i symud ein hagenda ymchwil, datblygu ac arloesi yn ei blaen.



Gweledigaeth

Byddwn yn cynhyrchu ac yn cydweithredu mewn ymchwil ac arloesi iechyd a gofal o ansawdd uchel, i wella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd i'n cyhoedd, cleifion a staff.

Byddwn yn ail-werthuso ein gweledigaeth trwy gyflawni'r Noda Strategol canlynol:



Cefndir

Mae gwaith ymchwil ac arloesi rhagorol yn cyfrannu at well canlyniadau iechyd trwy ymgorffori diwylliant sy'n hyrwyddo'r safonau uchaf mewn darpariaeth iechyd a gofal yn seiliedig ar dystiolaeth, a thrwy ddenu gweithwyr o'r radd flaenaf. Mae'r strategaeth hon yn ceisio gwella proffil, ansawdd a hyd a lled gwaith ymchwil ac arloesi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, fel bod holl aelodau'r sefydliad a'r gymuned ehangach yn gweld ei fod yn hanfodol ac yn werthfawr.

Er gwaethaf effeithiau dinistriol COVID-19, mae'r pandemig wedi dangos bod yna gysylltiad allweddol rhwng ymchwil, arloesi a gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r system gofal iechyd. Ni fu pwysigrwydd uniongyrchol troi ymchwil ac arloesi yn fuddion iechyd erioed yn gliriach ac rydym am i hynny barhau wrth i ni roi'r strategaeth hon ar waith.

Mae'r cynnydd cadarn a wnaed wrth ddatblygu ymchwil ac arloesi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda dros nifer o flynyddoedd, a lywiwyd gan arweinyddiaeth gref a Strategaeth Ymchwil a Datblygu 2016, wedi arwain at dwf sylweddol mewn gweithgareddau ymchwil ac incwm cysylltiedig, gan gryfhau ein statws fel Prifysgol. Mae diwedd oes strategaeth 2016 a'r cyd-destun newidiol, ynghyd â datblygiad strategaeth iechyd a gofal newydd – 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach' – yn golygu mai dyma'r adeg ddelfrydol i bennu cyfeiriad o'r newydd gyda strategaeth ymchwil ac arloesi ar gyfer y pedair blynedd nesaf.



Mae ffocws pendant y strategaeth iechyd a gofal ar fodel cymdeithasol ar gyfer iechyd yn cynnig canolbwynt ardderchog a chyfle i ni ystyried ein hymdrechion yn y dyfodol.

Wrth i'n dull ymchwil a datblygu ymffurfio, daeth y llinell denau rhwng gwaith ymchwil a'r rôl y gall ei chwarae o ran datblygu dulliau, syniadau, atebion a chynhyrchion newydd yn fwy amlwg. I lawer o'n staff, defnyddio gwybodaeth mewn 'cynlluniau arloesi' sy'n gwella canlyniadau iechyd



oedd y prif sbardun iddynt gymryd rhan mewn gwaith ymchwil.

Gwelsom hefyd y pwyslais cynyddol a chwbl gywir mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn ei roi ar waith arloesi a'i berthynas â gwaith ymchwil a datblygu. Mae noddi Hybiau Cydlynw Ymchwil, Arloesi a Gwella Rhanbarthol ac amlygrwydd cynyddol galluogwyr arloesi, gan gynnwys y rhai a gynigir gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, yn rhai enghreifftiau o hynny. Mae'r strategaeth

hon yn ceisio nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli ar y ffin rhwng gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi, a manteisio arnynt. Mae gwaith arloesi, a'r bobl sy'n ymddiddori ynddo, yn eang iawn ac nid oes modd i'r strategaeth hon gwmpasu pob agwedd ar arloesi. Bydd y strategaeth hon yn hoelio'r sylw ar nodi nifer cyfyngedig o gamau gweithredu a manteisio hyd yr eithaf ar eu heffaith er mwyn annog datblygiadau arloesol sy'n cynnig y budd mwyaf i'n dinasyddion.

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar bennu'r cyfeiriad ac ymrwymo i gymryd camau ymarferol i symud ein hagenda ymchwil, datblygu ac arloesi yn ei blaen.

Mae hon yn strategaeth feiddgar a bydd ei chyflwyno'n gofyn am ymdrech ac ymrwymiad sylweddol gan y sefydliad cyfan. Mae rhai heriau unigryw yn perthyn i'n Bwrdd Iechyd Prifysgol a all olygu bod hyrwyddo ymchwil ac arloesi yn anos, ond mae penderfyniad hefyd i sicrhau bod gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi cadarn yn sail i'r strategaeth glinigol.

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar bennu'r cyfeiriad ac ymrwymo i gymryd camau ymarferol i symud ein hagenda ymchwil, datblygu ac arloesi yn ei blaen. Mae'n ffrwyth cyfraniad sylweddol gan staff, adolygiad o arferion sefydliadau eraill ledled y DU, ymgynghoriad oddi mewn i'n strwythurau llywodraethu, ac ymgynghori â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol.

Fel pob Bwrdd Iechyd Prifysgol, mae Hywel Dda yn cynnal ei weithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi oddi mewn i fframweithiau perfformio a strategol cenedlaethol, felly bu ymgysylltu sylweddol trwy gydol y broses ddatblygu ag Adrannau Ymchwil ac Arloesi Llywodraeth Cymru, ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW). Mae'r strategaeth hon hefyd yn ymwybodol o ddatblygiadau ledled y DU, gan gynnwys y weledigaeth sydd ar ddod ar gyfer ymchwil glinigol yn y DU.

Nodau Strategol 1

GWELLA ANSAWDD AC EFFAITH EIN GWEITHGAREDDAU



1.1 Pam y mae hyn yn bwysig?

I sicrhau'r effaith fwyaf, mae'n bwysig i weithgareddau ymchwil ac arloesi fod o'r ansawdd uchaf. Mae'r nod hwn yn cydnabod y bydd polisiau a gweithdrefnau cadarn a threfn lywodraethu dda sy'n helpu ymchwilwyr ac arloeswyr i gyflawni eu gwaith yn gwella'r hyder y bydd gan bobl eraill yn eu darganfyddiadau.

Fodd bynnag, ni fydd gwella hyder yn ddigon, ar ei ben ei hun, i sicrhau effaith ac felly mae'r nod hwn hefyd yn cydnabod arwyddocâd datblygu dull effeithiol er mwyn gweithredu ar yr wybodaeth sy'n deillio o waith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys dangos i'n staff ac i'r cyhoedd sut y mae eu hymwneud â gwaith ymchwil ac arloesi yn arwain at iechyd a gofal gwell.

arwyddocâd datblygu dull effeithiol er mwyn gweithredu ar yr wybodaeth sy'n deillio o waith ymchwil.

1.2 Sut y byddwn yn cyflawni ein nod

1.2.1 Ein Dull Gweithredu o ran Ansawdd

Byddwn yn hwyluso astudiaethau portffolio a gwaith ymchwil ac arloesi arall o ansawdd uchel, yn unol â chyfarwyddbau, safonau a pholisiau ar lefel genedlaethol ac ar lefel y bwrdd iechyd. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn:

- Datblygu dull galluogol o sicrhau ansawdd, gan weithio gydag ymchwilwyr i sicrhau bod ansawdd yn rhan annatod o gynllun yr astudiaeth wrth ei sefydlu ac wrth reoli'r gwaith ymchwil yn barhaus;
- Mabwysiadu, datblygu ac ymgorffori gweithdrefnau gweithredu safonol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n cwmpasu holl rychwant gweithgareddau ymchwil y bwrdd iechyd;
- Sicrhau nawdd effeithiol ar gyfer yr astudiaethau yn unol â pholisi nawdd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, trwy ein panel adolygu nawdd a'r trefniadau cysylltiedig;
- Cynnal archwiliadau effeithiol ac effeithlon fel mater o drefn ac mewn ymateb i sbardun, gan ganolbwyntio'n glir ar adborth adeiladol a gwelliannau parhaus;
- Parhau â'n swyddogaeth sefydlu prosiectau ymchwil ac arloesi effeithiol, amserol a galluogol, gyda gallu contractio cryfach a chysylltiadau â datblygiadau pennu costau a chontractio ar lefel Cymru gyfan a'r DU.

1.2.2 Ein Heffaith

Byddwn yn datblygu dull gweithredu a fydd yn troi'r wybodaeth a ddatblygir trwy waith ymchwil ac arloesi yn effeithiau ymarferol, pob dydd. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn:

- Datblygu asesiad effaith ymchwil i gefnogi'r dewis o astudiaethau. Bydd astudiaethau â chymorth yn cwrdd â'r meysydd sydd â'r angen mwyaf a'r effaith bosibl, gan ganolbwyntio ar y buddion a ragwelir i'n gwasanaethau a'n cleifion. Bydd yr angen mwyaf yn cael ei ddiffinio gan gyfuniad o flaenoriaethau lleol, blaenoriaethau cyflenwi Cymru i gyd a blaenoriaethu'r DU. Datblygu ymchwil ac arloesi ymhellach yn rhan o'r cylch Cynllunio Tymor Canolig gyda chysylltiadau cryfach rhwng y canfyddiadau a'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd;
- Alinio gwaith ymchwil ac arloesi â blaenoriaethau cynllunio corfforaethol, gan gynnwys Strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach, ein dull gweithredu ffurfiannol, Gwella Gyda'n Gilydd, a'r agenda Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth;
- Gwella swmp ac ansawdd y cyhoeddiadau mewn cyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun arloesi 'cyflenwi a galw', a sicrhau buddion amlwg i'n dinasyddion a'n cymunedau; a Datblygu gwobr flynyddol ar gyfer ymchwil ac arloesi, mewn partneriaeth â chwmnïau lleol a'r wasg.

1.2.3 Ein Perfformiad

Byddwn yn cyflawni yn unol â'r targedau a'r blaenoriaethau strategol sydd gan Lywodraeth Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar hyn o bryd a'r rhai sy'n dod i'r golwg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Darparu yng nghyswllt blaenoriaethau strategol, camau gweithredu cysylltiedig a dangosyddion allweddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru;
- Gweithio gydag Ymchwil a Datblygu'r Deyrnas Unedig (UKRD) ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'n dull ymchwil, datblygu ac arloesi, er mwyn manteisio hyd yr eithaf ar ddarpariaeth y strategaeth, a datblygu dull gweithredu y bydd modd i fyrdau iechyd eraill yng Nghymru ei ddefnyddio.



Nodau Strategol 2

BUDDSODDI MEWN STAFF A CHYFLEUSTERAU I ANNOG DATBLYGU CYLCH CYLLIDO RHINWEDDOL



ein portffolio ymchwil a chreu cylch cyllido rhinweddol.

2.1 Pam y mae hyn yn bwysig?

Er mwyn ymgymryd â gwaith ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel, mae gofyn cael staff sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau cywir, sy'n gweithio mewn cyfleusterau sydd â'r adnoddau priodol, ac sydd â'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Ond, er bod llawer o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymroddedig i waith ymchwil a datblygu, gwyddom y gallai ein sefydliad wneud mwy i hwyluso eu cyfraniad. Mae'r nod hwn yn anelu at ddileu nifer o'r rhwystrau (e.e. cyfyngiadau staffio a chyfleusterau) sy'n atal gwaith ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel rhag cael ei gynnal. Mae'n ceisio rhoi sylw i brinder staff mewn meysydd ymchwil allweddol, caniatáu mwy o amser ar gyfer ymchwil, a chynnig hyfforddiant a datblygiad er mwyn galluogi'r holl staff i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil ac arloesi mewn meysydd newydd a meysydd sy'n tyfu. Mae'r nod yn cydnabod hefyd fod angen rhoi sylw i'r amrywiaeth o gyfleusterau y mae gofyn eu darparu er mwyn sicrhau bod gwaith ymchwil diogel ac effeithiol yn cael ei gynnal ar draws ein safleoedd.

Mae cyfyngiadau'r cyfleusterau ymchwil yn cyfyngu mewn modd annheg ar y mathau o astudiaethau y gall ein cleifion gymryd rhan ynddynt heb ddisgwyliad afresymol eu bod yn teithio i safle arall. Er mwyn buddsoddi yn ein pobl a'n cyfleusterau, byddwn yn defnyddio ein safle unigryw oddi mewn i'r Bwrdd Iechyd i greu incwm, gan dyfu ac ehangu amrywiaeth

2.2. Sut y byddwn yn cyflawni ein nod

2.2.1 Ein Pobl

Byddwn yn datblygu tîm sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir i wella ansawdd ac effaith gwaith ymchwil ac arloesi. Bydd hyn yn cynnwys camau a fydd yn:

- Gwella gallu staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gynnal gwaith ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel, gan ddefnyddio prosesau arfarnu, ac alinio tîm cymorth i'w tywys trwy'r broses ymchwil;
- Defnyddio dull gweithredu systematig i nodi staff sydd â diddordeb mewn gwaith ymchwil a'u helpu i ddatblygu eu gallu i ymchwilio trwy brosesau Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad (PADR) a chynllunio swyddi;
- Cynorthwyo ein staff ymchwil ac arloesi i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol trwy gynllunio a darparu dysgu sy'n berthnasol i'w rolau;
- Sefydlu tîm sy'n gallu cefnogi arloeswyr trwy broses datblygu technolegau iechyd a gofal newydd;
- Datblygu tîm i reoli a thyfu ein Banc Bio (h.y. yr ystorfa fiolegol sy'n cadw samplau biolegol i'w defnyddio mewn ymchwil ac arloesi);
- Mynd i'r afael â phrinder arweinwyr ymchwil ar draws yr holl grwpiau staff, trwy gynlluniau a phrosesau datblygu wedi'u targedu (Pen-ymchwilwyr, Prif Ymchwilwyr);

- Mynd i'r afael â phrinder mewn gwasanaethau allweddol ym maes cymorth ymchwil, gan gynnwys gwyddonwyr labordy, radioleg, ac ystadegau;
- Hyfforddi a chynorthwyo carfan o gleifion (e.e. eiriolwyr dros gleifion, grwpiau cleifion) i lywio a ffurfio ymdrechion ymchwil.

2.2.2 Ein Cyfleusterau

Byddwn yn buddsoddi yn ein seilwaith er mwyn cefnogi cynnal ymchwil ac arloesi yn ddiogel ac yn effeithiol, yn gyson â chynlluniau cyfleusterau ehangach y bwrdd iechyd. Bydd hyn yn cynnwys:

- Datblygu cyfleusterau 'addas i'r diben' sy'n gwasanaethu ein holl ardaloedd, gyda mynediad i amgylcheddau o ansawdd uchel ar gyfer ymgynghori â chleifion, labordai a swyddfeydd addas;
- Gweithio gyda'r tîm sy'n cynllunio'r ysbyty gofal brys newydd wedi'i i ddatblygu cyfleuster ymchwil ac arloesi;
- Datblygu cyfleuster newydd ar gyfer peirianeg glinigol, ymchwil ac arloesi yn Llanelli, a chymorth i'r rhai sy'n datblygu technolegau iechyd a gofal newydd. Fe'i lleolir ym Mynea i ddechrau ond gyda'r posibilrwydd o symud i safle Pentre Awel, pan fydd hwnnw'n weithredol yn 2023/24;
- Cryfhau ein cydweithrediad â'n partneriaid Prifysgol, er mwyn gwella mynediad i'n cyfleusterau arbenigol ni a'u cyfleusterau arbenigol nhw;
- Datblygu storfa sicr a diogel ar gyfer samplau biolegol dynol ar safle pob ysbyty, wedi'i rheoli trwy system cronfa ddata electronig bwrpasol.

2.2.3 Ein Cynaliadwyedd Ariannol

Byddwn yn cynyddu ac yn amrywio'r adnoddau ariannol sydd ar gael i hybu ymchwil ac arloesi. Bydd ein camau gweithredu'n cynnwys:

- Sefydlogi ein dyraniad cyllid gan Lywodraeth Cymru, trwy ddarparu cynlluniau y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arnynt;
- Cynyddu nifer yr astudiaethau masnachol a gyflawnir;
- Cyflwyno ceisiadau cadarn am gyllid ychwanegol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru er mwyn cefnogi datblygu meysydd ymchwil newydd/Prif ymchwilwyr newydd;
- Cynyddu nifer a graddfa'r astudiaethau a gefnogir gan gyllidwyr grant allanol, a'u cyflawni yn unol â'r disgwyliadau (recriwtio'n amserol ac yn unol â'r targed) er mwyn sicrhau bod yr incwm disgwyliedig yn cael ei wireddu;
- Cynyddu nifer yr astudiaethau technoleg a dyfeisiau newydd a gefnogir trwy swyddogaeth peirianeg glinigol, arloesi ac ymchwil benodedig;
- Datblygu swyddogaeth contractio gryfach, gan gynnwys trafod telerau a sicrhau Hawliau Eiddo Deallusol (IPR);
- Datblygu gwerthusiadau gwasanaeth ac ymchwil a gomisiynwyd fel ffynhonnell refeniw;
- Cynyddu nifer y cynlluniau cydweithredu a phartneriaethau â chwmnïau gwyddor bywyd, lle bydd manteision amlwg a chyfle i gynyddu gwaith ymchwil.

Nodau Strategol 3

TYFU GWAITH YMCHWIL AC ARLOESI MEWN MEYSYDD LLE BYDD CRYFDERAU A CHYFLEOEDD



3.1 Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach yn disgrifio dyfodol ein system gofal iechyd lle bydd mwy o bwyslais ar atal salwch, helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, a galluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y gallant, â chymorth technolegau newydd a gwasanaethau gofal iechyd integredig yn agos i'w cartref. Mae'n hanfodol bod ein hymdrechion ymchwil ac arloesi yn cyd-fynd â'r weledigaeth hon, gyda chynnydd cyfatebol mewn gweithgareddau a gefnogir y tu allan i'r ysbyty mewn lleoliadau iechyd a gofal eraill, gan gynnwys gofal sylfaenol.

Bydd y nod hwn yn cyflawni'r ailgydbwysio sy'n ofynnol ond hefyd yn cydnabod bod angen cynlluniau twf unigol, sy'n manteisio ar y cyfleoedd a'r cryfderau ymchwil ac arloesi a welir yn y system iechyd a gofal mewn gwahanol rannau o'r bwrdd iechyd, yn ogystal â'r gwahanol anghenion gofal iechyd sydd gan y boblogaeth yn y meysydd hynny. Bydd y cynlluniau hyn hefyd yn ystyried y cyfleoedd a'r berthynas â phartneriaid cyhoeddus, elusennol a phreifat ehangach, yn ogystal â chryfhau'r partneriaethau presennol â chleifion. Mae cyfleoedd hefyd i dyfu ymchwil ac arloesi ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd, gyda'r nod o fanteisio ar gryfderau penodol y sefydliad (e.e. y galluoedd sy'n codi yn ein Banc Bio a'r berthynas gref rhwng peirianeg glinigol, ymchwil a datblygu). Bydd y rhain yn gyfle i ni ehangu'r amrywiaeth o ddatblygiadau ymchwil, arloesi a thechnoleg y mae modd i ni eu cefnogi.

3.2. Sut y byddwn yn cyflawni ein nod

3.2.1 Ein Cymunedau Ymchwil

Byddwn yn datblygu cynlluniau wedi'u targedu sy'n manteisio ar gryfderau a chyfleoedd clinigol, gwyddonol, academiaidd, a chymunedol ar draws y gwahanol ardaloedd daearyddol sy'n rhan o'n bwrdd iechyd. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer:

- ardal Ceredigion ac Ysbyty Cyffredinol Bronglais, sy'n manteisio ar ei hagosrwydd at Brifysgol Aberystwyth, Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru a Bargaen Twf ffurfiannol Canolbarth Cymru;
- ardal Gorllewin Sir Gaerfyrddin ac Ysbyty Cyffredinol Glangwili, sy'n manteisio ar faint yr ysbyty a'r amrywiaeth o wasanaethau clinigol sy'n cael eu cynnig, a'i agosrwydd at Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe, a datblygiadau rhanbarthol fel y Bargeinion Twf Dinesig;
- ardal Dwyrain Sir Gaerfyrddin ac Ysbyty Cyffredinol y Tywysog Philip, sy'n cydgrynhoi ac yn adeiladu ar gyfleusterau a phortffolio ymchwil sydd wedi'u sefydlu'n gadarn, agosrwydd at gampysau Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Abertawe, a datblygiadau rhanbarthol fel y Bargeinion Twf Dinesig a'r cynigion ar gyfer Pentre Awel;
- ardal Sir Benfro ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, sy'n manteisio ar bortffolio ymchwil sydd wedi'i sefydlu'n dda, yn arbennig o ran treialon oncoleg, ond sy'n ehangu i feysydd eraill, a'r cysylltiadau cynyddol â'r Bargeinion Twf Dinesig a'r cyflogwyr diwydiannol pwysig yn yr ardal, gan gynnwys y rhai yn y clwstwr o amgylch Porthladd Aberdaugleddau.

3.2.2 Ein Cwmpas

Byddwn yn datblygu cynllun i gynyddu gweithgareddau ymchwil ac arloesi gyda sefydliadau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth. Bydd ein camau gweithredu yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r clystyrau meddygon teulu a thîm gofal sylfaenol Ymchwil a Gofal Iechyd Cymru i ddatblygu cynlluniau i gynyddu'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gyflawnir mewn gofal sylfaenol;
- Datblygu rhaglen ymchwil i benderfynyddion cymdeithasol er mwyn nodi sut y gallwn weithio gyda'n partneriaid i gynyddu hyd yr eithaf ar ddylanwad cymdeithasol ehangach ein gweithgareddau;
- Gweithio gydag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella Rhanbarthol (RIIC), i ddatblygu cynllun i wella gwaith ymchwil ac arloesi mewn gofal cymdeithasol ac mewn sectorau sy'n gwneud cyfraniad allweddol i'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd.



3.2.3 Ein Portffolio

Wrth i ni barhau i gydgyrnhoi ein gwaith ymchwil ac arloesi mewn meysydd cryf allweddol, byddwn hefyd yn ehangu ein gweithgareddau i gynnwys datblygu technoleg newydd. Bydd hyn yn cynnwys y camau canlynol:

- Gwerthuso ein Banc Bio a drwyddeddir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'i ddatblygu ymhellach, os bydd hynny'n ymarferol, er mwyn iddo fedru cefnogi mwy o astudiaethau;
- Datblygu cyfleuster ymgynghori peirianeg glinigol, arloesi ac ymchwil, a fydd yn cynnig cyngor a chymorth i ddatblygwyr technolegau iechyd a gofal newydd;
- Cynyddu nifer ac ansawdd y prosiectau ymchwil, gwerthuso ac arloesi Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth;
- Datblygu cynlluniau twf ymchwil ac arloesi wedi'u targedu mewn meysydd clinigol ac academiaidd cryf, wedi'u gyrru gan anghenion y boblogaeth, strategaeth/ blaenoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r anghenion sy'n flaenoriaeth ar lefel y Deyrnas Unedig;
- Datblygu gwaith ymchwil wedi'i dargedu i gydfynd â'n cynlluniau corfforaethol ehangach a adnewyddir yn flynyddol (e.e. hybu gofal iechyd gwyrdd a'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd).



Nodau Strategol 4

DATBLYGU PARTNERIAETHAL CRYF AC EFFEITHIOL GYDA SEFYDLIADAU ACADEMAIDD, GOFAL IECHYD, DIWYDIANT AC YMCHWIL



4.1 Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae'r gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi mwyaf effeithiol yn dibynnu ar gysylltiadau cryf rhwng y GIG, sefydliadau addysg uwch a diwydiant. Boed trwy gyfranogi mewn treial rhwyngwladol, optimeiddio arbenigedd gwyddonol, neu sicrhau buddsoddiadau ariannol cydweithredol, mae partneriaethau cryf ac effeithiol yn hanfodol bwysig.

Fel sefydliad cymharol fach, rydym yn sylweddoli y gallwn gyflawni llawer mwy trwy gydweithio â phrifysgolion, diwydiant a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r rôl arwyddocaol y gallwn ei chwarae wrth helpu ein partneriaid i gyflawni, boed hynny'n ymwneud â dod yn fusnes gwyddor bywyd llwyddiannus sy'n cyflogi unigolion dawnus, neu trwy gefnogi prifysgolion sy'n arddangos effaith ymchwil, menter ac arloesi.

4.2 Sut y byddwn yn cyflawni ein nod

4.2.1 Ein Partneriaethau â Phrifysgolion

Byddwn yn gweithio gyda phob un o'n prifysgolion partner i ddatblygu a chyflawni cynllun cydweithio er budd pawb mewn meysydd a ddiffiniwyd a byddwn yn cytuno ar y cynllun hwn ac yn ei fonitro trwy ein cyfarfodydd â nhw a gynhelir ddwywaith y

flwyddyn. Bydd y cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu a fydd yn:

- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y swyddi anrhydeddus, wedi'u halinio â phrosiectau ymchwil ac arloesi er budd pawb;
- Cynyddu nifer yr ymdrechion ymchwil ac arloesi ar y cyd â sefydliadau addysg uwch a diwydiant, gan geisio optimeiddio cyfraniad y Bwrdd Iechyd Prifysgol mewn cynlluniau a gefnogir yn genedlaethol, gan gynnwys rhaglen Cyflymu a'r cynlluniau cyllido newydd a fydd yn dod yn amlwg yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd;
- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y swyddi a gyllidir ar y cyd rhwng y prifysgolion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn meysydd academaidd a chlinigol cryf;
- Alinio'n gryfach â'r arbenigedd a'r cyfleusterau a gynigir gan y prifysgolion. Er enghraifft y Cyfleuster Ymchwil Glinigol ar y Cyd (JCRF) ym Mhrifysgol Abertawe; Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth; a'r Ganolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATiC) ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau ar y cyd sy'n ymwneud â'n Banc Bio a'n galluedd peirianeg glinigol, ymchwil ac arloesi datblygedig, ynghyd â'n modelau cymdeithasol a gwyrd ar gyfer gofal iechyd;
- Cynyddu nifer y cymrodoriaethau a'r ysgoloriaethau ymchwil, sy'n cyd-fynd â heriau a chyfleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Datblygu partneriaeth gref a phrosiectau ar y cyd â'r tair Academi Dysgu Dwys (ILA) newydd yng Nghymru (h.y. yr Academi Iechyd a Gofal

sy'n Seiliedig ar Werth, yr Academi Lledaeniad a Graddfa, ac Academi Arloesi Cymru Gyfan mewn Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol);

- Dathlu llwyddiant a chanlyniadau ein cynlluniau cydweithredu, gan gynnwys cynnal Uwch-gynhadledd flynyddol Partneriaethau Prifysgol, a darparu diweddariadau rheolaidd ynghylch ymchwil trwy ein negeseuon arferol i'r staff.

4.2.2 Ein Partneriaethau â Diwydiant

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ein gwerthoedd i ddatblygu datrysiadau arloesol i heriau iechyd a gofal lleol. Bydd hyn yn cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- Gwella nifer ac ansawdd y cyfleoedd partneriaeth â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, hybiau ymchwil cenedlaethol a chanolfannau arloesi a noddir ar lefel genedlaethol;
- Datblygu ymhellach a chyflwyno prosiectau ar y cyd sy'n ceisio sicrhau'r manteision sy'n gysylltiedig â'n Banc Bio a drwyddeddir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, gyda phwyllgor mynediad annibynnol newydd a threfniadau cysylltiedig, os gwelir bod hynny'n ymarferol;
- Datblygu a chyflwyno prosiectau ar y cyd sy'n ceisio sicrhau'r manteision sy'n gysylltiedig â'n trefniadau peirianeg glinigol, ymchwil ac arloesi newydd;
- Symleiddio ein trefniadau ar gyfer gweithio gyda diwydiant, gan gynnwys darparu ymchwil fasnachol, gan sicrhau y glynir wrth safonau cenedlaethol a safonau lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a sicrhau hefyd fod gennym ddull gweithredu effeithlon ar gyfer nodi, contractio ac amddiffyn ein heiddo deallusol, gan ddefnyddio arbenigedd a mentrau lleol, gan gynnwys AgorIP, Prifysgol Abertawe.

4.2.3 Ein Partneriaethau Cyhoeddus

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill sy'n cael cyllid cyhoeddus i gynnal gwaith ymchwil ac arloesi er budd pawb. Byddwn yn:

- Cytuno ar gynlluniau ymchwil ac arloesi cydweithredol gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Gweithio gyda Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella Gorllewin Cymru i gydlynu ac alinio gweithgareddau ein partneriaid cyhoeddus yn well a'u cyfeirio tuag at feysydd lle gellir sicrhau'r effaith fwyaf. Bydd hyn yn cynnwys sefydliadau eraill yn y GIG, awdurdodau lleol, sefydliadau yn y sector elusennol a gwirfoddol. Datblygir cynllun wedi'i dargedu gan ddefnyddio gwaith mapio asedau a galluoedd yn y rhanbarth a gyflawnwyd yn ddiweddar;
- Parhau i ddyfnhau'r berthynas gref sydd gennym eisoes â Chomisiwn Bevan, i gydgrynhoi a chynyddu nifer ac ansawdd prosiectau Enghreifftiol Bevan, lle bydd hynny'n bosibl. Byddwn yn gweithio gyda'r Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella rhanbarthol i brif ffrydio'r prosiectau mwyaf llwyddiannus;
- Manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r Cydweithrediad Rhanbarthol dros Iechyd (ARCH) a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, gan gynnwys datblygiad Pentre Awel yn Llanelli, a'r cynigion ar gyfer parc gwyddor bywyd yn Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gydag allgymorth rhanbarthol;
- Parhau i alinio ein gweithgareddau ymchwil ac arloesi i gefnogi cynllun strategol Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru, gan weithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Gwledig Cymru.


Cyflwyno'r Strategaeth

Bydd y strategaeth hon yn gefnlen i gynllun blynyddol a fydd yn cyd-fynd â chylch cynllunio blynyddol y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gweithgareddau penodol, amserol a mesuradwy ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn hefyd yn cynhyrchu cynllun cyfathrebu, gan sicrhau bod cynnydd ac, yn bwysicach, effaith ymchwil ac arloesi yn cael eu rhannu ar draws ein sefydliad a'r tu hwnt iddo. Er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei goruchwyllo'n gadarn, a bod y camau gweithredu'n cael eu hadolygu yng ngoleuni'r cynnydd a'r cyd-destun sy'n datblygu'n gyflym, rhoddwyd cryn ystyriaeth i sefydlu dull llywodraethu da a fydd yn sicrhau goruchwyliaeth gref gan y Bwrdd a dull galluogi ymarferol.

Mae **Ffigur 1** yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r strategaeth a chraffu arni, ynghyd â'r mecanweithiau ehangach ar gyfer cadw golwg ar reolaeth ymchwil ac arloesi ar lefel prosiect. Bydd y Tîm Arwain a'r Grŵp Arwain Gweithredol yn edrych ar weithrediad prosiectau bob mis ac yn rhoi adroddiadau cynnydd i'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, sy'n cyfarfod bob deufis. Bydd y Grŵp Nawdd Ymchwil yn adolygu ac yn ystyried prosiectau ymchwil y mae angen Nawdd y Bwrdd Iechyd arnynt, ac yn goruchwyllo prosesau caniatáu trefn yr astudiaeth, cadarnhau Capasiti a Gallu (C&C) a Sicrhau Ansawdd. Bydd y Grŵp Rheoli Ansawdd Gwaith Ymchwil yn darparu sicrwydd i'r bwrdd ynghylch ansawdd a diogelwch gweithgareddau ymchwil a gyflawnir oddi mewn i'r Bwrdd Iechyd a chyda'r Bwrdd Iechyd.



Figure 1 – Llywodraethu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.





Am fwy o fanylion cysylltwch a

Research & Development Office
Dura Park, Yspitty Rd
Bynea, Llanelli
SA14 9TD

Ebost: HDD.Research-Development@wales.nhs.uk



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board